

## Tasg 1

# Melikam Gena!

## Ethiopia

1. Beth rydych chi'n ei wybod am Ethiopia?

### Oeddech chi'n gwybod ...?

- Gwlad yng Ngorllewin Affrica yw hi.



- Dyma un o'r cenedloedd hynaf yn Affrica.
- Mae rhai o redwyr marathon cyflymaf y byd yn mynd yno er mwyn hyfforddi ar gyfer rasio.
- Maen nhw'n siarad dros 80 iaith yn y wlad.
- Mae'n bosib bod coffi'n dod o'r wlad hon yn wreiddiol. Yn ôl un chwedl, roedd bugail geifr o'r enw Kaldi yn bugeilio'i braidd yn ardal Kaffa un diwrnod pan welodd fod y geifr yn fywiog iawn ar ôl iddyn nhw fwyta aeron oddi ar lwyn arbennig. Dywedodd wrth yr abad mewn mynachlog leol a defnyddiodd yntau'r aeron i wneud diod. Y canlyniad? Roedd y ddiod yn ei helpu i gadw'n effro yn ystod oriau hir o weddio yn y fynachlog. O Ethiopia, tyfodd poblogrwydd coffi ar draws y byd.
- Maen nhw'n defnyddio calendr gwahanol i ni – mae 13 mis yn eu blwyddyn nhw.

Chwiliwch am 5 ffaith ddiddorol arall am Ethiopia a gwnewch nodiadau.

Rhowch y wybodaeth i'r grŵp – rhannwch y ffeithiau.

Ysgrifennwch ddarn am Ethiopia sy'n cynnwys y wybodaeth daethoch chi o hyd iddi a'r wybodaeth gan eich partneriaid. Cofiwch gynnwys crynodeb o'r dathliadau Nadolig sy'n digwydd yno.

